

Mynd i'r afael â Jac y neidiwr: Peidiwch â'i anwybyddu!

Os ydych chi'n gweld Jac y neidiwr yng nghefn gwlad, wrth ymyl afon neu ar ochr y ffordd, gallwch chi ei dorri neu'i ddiwreiddio (gweler isod). Gallwch chi wneud yr un modd ar eich tir eich hun, neu gallwch chi ei bori gyda da byw. Nid yw Jac y neidiwr yn wenwynig. Er mwyn cael cymorth i fynd i'r afael â Jac y neidiwr, chwiliwch am grŵp gweithredu cymunedol lleol neu dechreuwch eich grŵp eich hun.

Mae Jac y neidiwr yn hawdd i'w ddiwreiddio gan fod ei wreiddiau yn wan a heb ddyfnder



Gwirfoddolwyr yn diwreiddio Jac y neidiwr

Dull ar gyfer ei ddiwreiddio

- Tynnwch y planhigyn cyfan gyda'i wreiddiau i gyd.
- Mae'n well ei dynnu cyn i'r blodau a'r hadau ymddangos arno.
- Os yw'n bosibl, torrwch y coesyn yn ddarnau a thorrwch y gwreiddyn i fwrdd.
- Rhowch ef mewn pentwr a'i adael i bydru neu'i hongian ar ganghennau a'i adael i sychu.
- Ar ôl ychydig o wythnosau, edrychwch ar y pentyrrau i weld a yw Jac y neidiwr yn ailwreiddio neu'n blodeuo.
- Mae tynnu'r planhigyn dro ar ôl tro bob mis yn dod â llwyddiant cyflym.

Rhybudd: Gall Jac y neidiwr sy'n cael ei adael mewn lleoedd gwlyb ailwreiddio o bob nod ac yna ailflodeuo a hadu.

Mynd i'r afael â Jac y neidiwr sy'n blodeuo a hadu

Dolen fideo <https://www.youtube.com/watch?v=rjijVQU0DMs>

- Plygwch y blodyn a'r pen hadau yn ofalus i mewn i fag plastig cryf.
- Torrwch y blodau a'r hadau i mewn i'r bag.
- Cadwch y blodau a'r hadau sydd yn y bag ar y safle er mwyn iddyn nhw bydru yn y bagiau am o leiaf 3 blynedd.

Rhybudd: Os yw Jac y neidiwr a deunyddiau cysylltiedig e.e. pridd yn cael eu cludo o'u safle gwreiddiol, maen nhw'n dod yn wastraff wedi'i reoli (ac mae'n rhaid eu gwaredu mewn safle tirlenwi a awdurdodir i'w derbyn).

Dulliau Mecanyddol

- Nid yw Jac y neidiwr yn aildyfu os yw'n cael ei dorri yn is na'r nod gwaelod (gweler y llun ar dudalen 1).
- Os yw'n cael ei dorri yn uwch na'r nod gwaelod, mae'r planhigion yn gorddatblygu, yn aildyfu ac yn cynhyrchu llawer o hadau.
- Gall ardaloedd mawr gael eu strimio, eu ffustio, eu pladuro neu'u slaesio.
- Bydd hyd yn oed un toriad isel yn ystod y tymor cyntaf yn lleihau nifer yr hadau a gynhyrchir yn sylweddol, ac mae hyn yn rhoi amser i chi gynllunio sut i fynd i'r afael ag ardal benodol.
- Dylid monitro'r safle bob mis er mwyn dod o hyd i blanhigion newydd a rhai sydd heb gael eu torri o'r blaen.

Rhybuddion: Derbyn hyfforddiant a defnyddio cyfarpar diogelu priodol. Peidiwch â strimio os oes clymog Japan yno. Gall llai na 0.7 gram o glymog Japan aildyfu. Glanhewch eich hun a'r holl offer sydd ar y safle er mwyn atal lleadaenu'r hadau.



Jac y neidiwr yn ailwreiddio ar ôl sychu am 2 wythnos



Gofalwch nad oes hadau yn dianc



Gwrandewch ar yr hadau yn clecian yn y bag



Mewn lleoedd cyhoeddus, dylech gael gwylwyr er mwyn gwarchod y cyhoedd

Pa mor gyflym a allwch chi wneud gwahaniaeth? Cyflym iawn!






Mai 2011
Lleiniau o Jac y neidiwr ifanc



Mai 2012
Gwaredwyd â Jac y neidiwr

Ar rai safleoedd lle nad oes llifogydd, gallwch chi gael gwared â'r rhan fwyaf o Jac y neidiwr mewn blwyddyn. Roedd y llain uchod (chwith) wedi cael ei thorri gyda strimiwr yn hwyr ym mis Mai. Tynnwyd planhigion a oedd newydd egino bob mis tan fis Hydref. Y flwyddyn ganlynol, dychwelodd y glaswellt a'r blodau gwyllt brodorol. Mae gwaith monitro achlysurol yn parhau.

Camau i'w cymryd er mwyn atal Jac y neidiwr rhag lledaenu neu er mwyn cael gwared ohono.

-  **Jac y neidiwr**
-  **Blaenoriaethu'r Ffynhonnell**
-  **Ymyl allanol**

Gall Jac y neidiwr sydd ar ochr y ffordd ac mewn caeau gael ei lledaenu gan drafnidiaeth a pheiriannau



Gwybod beth yr ydych chi'n ei dyfu: Gall planhigion goresgynnol feddiannu eich pwll neu'ch gardd a niweidio'r amgylchedd.

Dylech atal y lledaenu drwy beidio â symud planhigion y pwll o gwmpas.

Compostwch yn ofalus Peidiwch â chael gwared â phlanhigion dyfrol yn y gwyllt – gallwch chi fod yn torri'r gyfraith.



Edrychwch ar eich cyfarpar a'ch dillad i weld a oes organebau byw arny'n nhw — yn arbennig felly, mewn mannau sy'n wlyb neu'n anodd eu harchwilio.



Glanhewch a golchwch yr holl gyfarpar, esgidiau a dillad yn drylwyr. Os ydych chi'n gweld unrhyw organebau, gadewch nhw wrth y dŵr lle gwelsoch chi nhw.



Sychwch yr holl gyfarpar a'r dillad - gall rhai rhywogaethau fyw am nifer o ddyddiau mewn amodau llai. Sichwch nad ydych chi'n trosglwyddo'r dŵr i unrhyw fan arall.

**Gallwch CHI
wneud
gwahaniaeth!**

Bu'r strategaethau hyn o gymorth i Gymdeithas Gymunedol Llandudoch i glirio 50 acer o Jac y neidiwr, yn cynnwys ardaloedd dyrys o gorsydd, clogwyni, draenen ddu a thomenni.



Defnyddiwyd darnau o fatiau ceffyl i arnofio ar y gors



Roedd meddygon coed yn abseilio i lawr y clogwyni (ar eu hyswiriad eu hunain)



Defnyddiwyd mat ceffyl er mwyn 'syrffio' llwyni mwyar duon a'r draenen ddu



Chwistrellu lle mae'r mynediad yn berygl e.e. mewn tomenni. Mae angen hyfforddiant a chyfarpar diogelu priodol.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch swyddog Cadwch Gymru'n Daclus lleol www.keepwalestidy.cymru. Er mwyn cael gwybodaeth ynglŷn ag adnabod rhywogaethau, rhybuddion a bioamrywiaeth, ewch i www.nonnativespecies.org.

1. Gweithiwch gyda thirfeddianwyr er mwyn dod o hyd i ddull derbyniol.
2. Rhowch bosteri i fyny ac anfonwch eitemau at bapurau newydd er mwyn rhoi gwybod i bobl beth sy'n cael ei wneud.
3. Gwahoddwch wirfoddolwyr newydd i ymuno â chi, e.e. mewn digwyddiadau lleol a marchnadoedd ffermwr.
4. Cyfyngwch y gwaith i ychydig o oriau yn unig i'r rhan fwyaf o bartion gwaith. Peidiwch â gorlwytho gwirfoddolwyr.
5. Aildorrwch yr ardal bob mis. Mae hyn fel arfer yn gyflym ac yn ddigonol.
6. Darparwch ddyon o ddiodydd a danteithion. Dathlwh yr hyn a gyflawnwyd drwy ddigwyddiadau cymdeithasol, e.e. barbeciw.

Yn gyffredinol, bydd amseru'r driniaeth i Jac y Neidiwr yn dibynnu ar y lleoliad

	Ion	Chwef	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
Pori												
Torri/Tynnu												
Rhoi'r hadau mewn bagiau - Dilynwch y canllawiau												
Chwistrellu - yn ddefnyddiol mewn ardaloedd perglus												Dilynwch y Côd Ymarfer

Rhowch wybod ynglŷn â phlâu o Jac y neidiwr ar-lein

Os ydych chi'n gweld pla o Jac y Neidiwr, rhowch wybod amdano i Ganolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru yn www.wwbic.org.uk/cy/wildlife-recording. Lluniwyd y daflen hon fel rhan brosiect Pwyth mewn Pryd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gydag Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro a Chymdeithas Gymunedol Llandudoch. Mae Pwyth mewn Pryd yn cael ei gyllido gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy ac mae'n cael ei weinyddu gan Awdurdod y Parc. Er mwyn cael gwybodaeth bellach, ewch i www.nonnativespecies.org



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales



Anrhestr gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



**Fersiwn print bras
www.arfordirpenfro.cymru**

Mae Jac y neidiwr ar restr 'y deg uchaf o rywogaethau goresgynnol mwyaf distrywiol a chostus' gan Cyfoeth Naturiol Cymru. O dan Ddeddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwylti, mae'n drosedd 'i blannu, neu fel arall, achosi Jac y Neidiwr i dyfu yn y gwyllt.'